

Cyngor ar ysgrifennu **DATGANIAD I'R WASG**

Yn sgil y cynnydd parhaus yn yr amrywiaeth o wasanaethau a dyfeisiau digidol i ddarllen a gwyllo'r newyddion, mae cyrraedd cynulleidfa eang trwy ddatganiad i'r wasg yn bwysicach nag erioed. Nid yw'r symudiad at ddarllen a gwyllo'r newyddion yn ddigidol wedi lleihau dim ar bwysigrwydd datganiad i'r wasg fel arf cysylltiadau cyhoeddus anhepgor.

10 PRIF GYNGOR

1. Gwnewch yn siŵr bod y wybodaeth yn deilwng o fod yn newyddion.
2. Gofynnwch i'ch hun, "Sut mae hyn yn berthnasol i fywyd pob dydd? Sut mae'n effeithio ar bobl gyffredin? Pam ddylai eich stori fod o ddiddordeb iddyn nhw?"
3. Cofiwch y pum cwestiwn: Pwy, Beth, Pryd, Ble a Pham. Gwnewch yn siŵr bod y manylion yma'n cael eu cynnwys yn eich paragraff cyntaf.
4. Cadwch y cynnwys yn syml - osgowch ddefnyddio geiriau hir a brawddegau hir a defnyddiwch iaith bob dydd. Fel canllaw bras, defnyddiwch iaith y byddai darlennydd 11 mlwydd oed yn ei deall a chadwch y brawddegau o dan 25 gair.
5. Byddwch yn gryno, yn glir ac yn bwrpasol. Arhoswch o dan 450 gair, yn ddefnyddol yn nes at 250.
6. Osgowch ddefnyddio gormod o ansoddeiriau ac iaith rwysgfawr.
7. Peidiwch â hysbysebu - newyddion sydd dan sylw. Cadwch at y ffeithiau. Peidiwch â defnyddio geiriau fel 'unigryw' a 'thorri tir newydd' ac osgowch ystrydebau.
8. Peidiwch ag ysgrifennu yn y person cyntaf. (Defnyddiwch 'ef', 'hi', a 'nhw' yn hytrach na 'fi' a 'ni').
9. Cynhwyswch lun os yn bosib - gall luniau benderfynu a yw stori'n cael ei defnyddio neu beidio. Hefyd, ystyriwch fideo/delweddau symudol ar gyfer cynnwys ar-lein.
10. Gofalwch eich bod yn cynnwys cyswllt (rhif ffôn ac e-bost) ar waelod y datganiad i'r wasg, a gwnewch yn siŵr eich bod ar gael i ymateb i unrhyw ymholiadau gan y cyfryngau pan gaiff ei anfon i'r wasg er mwyn peidio â cholli'r cyfle i roi cyhoeddusrwydd i'ch gwaith ac i'r Brifysgol.



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Cynhyrchwyd gan Swyddfa'r Wasg - am fwy o gynghorion yn ymwneud â'r cyfryngau, anfonwch e-bost at press@bangor.ac.uk